# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 2

DIGARTREFEDD

## PENNOD 2

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU
O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Dyletswyddau i gynorthwyo ceiswyr*

### 68 Dyletswydd interim i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref mewn angen blaenoriaethol

(1) Rhaid i'r awdurdod tai lleol sicrhau bod llety addas ar gael i'w feddiannu gan geisydd y mae is-adran (2) neu (3) yn gymwys iddo hyd nes y daw'r ddyletswydd i ben yn unol ag adran 69.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys i geisydd y mae gan yr awdurdod reswm i gredu y gallai fod—

(a) yn ddigartref,

(b) yn gymwys i gael cymorth, a

(c) ag angen blaenoriaethau am lety,

o dan amgylchiadau pan nad yw'r awdurdod yn fodlon hyd yma bod y ceisydd yn ddigartref, yn gymwys i gael cymorth ac ag angen blaenoriaethol am lety.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys i geisydd—

(a) y mae'r awdurdod â rheswm i gredu neu yn fodlon bod ganddo angen blaenoriaethol neu y mae ei achos wedi cael ei atgyfeirio gan awdurdod tai lleol yn Lloegr o dan adran 198(1) o Ddeddf Tai 1996, a

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/04/2015.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 68. (See end of Document for details)*

(b) y mae'r ddyletswydd yn adran 73 (dyletswydd i gynorthwyo i ddod â digartrefedd i ben) yn gymwys iddo.

(4) Mae'r ddyletswydd o dan yr adran hon yn codi pa un a oes unrhyw bosibilrwydd o atgyfeirio achos y ceisydd at awdurdod arall ai peidio (gweler adrannau 80 i 82).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 68 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 68 mewn grym ar 27.4.2015 gan O.S. 2015/1272, ergl. 2, **Atod. para. 19**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/04/2015.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 68.